

# William Tyndale c.1494–1536

## *Cyfieithydd y Beibl i Saesneg*

‘Without Tyndale, no Shakespeare.’

Mae'n debygol i Tyndale gael ei eni yn ardal Dursley, Swydd Gaerloyw (Gloucestershire), tua 1494 ac yr oedd ganddo ddiddordeb ysol yn yr ysgrythurau ers ei ddyddiau cynnar. Roedd o deulu cefnog oedd yn dirfeddianwyr a masnachwyr gwlan. Ni wyddom pwy oedd ei rieni ond yr oedd ganddo ddau frawd hyn. Efallai iddo ddysgu Lladin pan oedd yn blentyn yn Ysgol Ramadeg Lady Berkeley yn Wotton under Edge. Enillodd radd BA yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen, ac fe'i hordeiniwyd yn is-ddiacon ym 1512 ac yn offeiriad yn Llundain ym 1515.

Dychwelodd i Gaerloyw fel tiwtor i blant Syr John Walsh yn Little Sodbury Manor yn y Cotswolds. Yn y cyfnod hwn defnyddiodd ei amser sbâr i astudio, pregethu yn lleol a dechrau cyfieithu Testament Newydd Groeg Erasmus i Saesneg. Yn ystod ei oes fe feistolodd saith o ieithoedd sef Groeg, Lladin, Hebraeg, Almaeneg, Sbaeneg, Ffrangeg a Saesneg. Roedd Tyndale wedi penderfynu argraffu'r Testament Newydd yn Saesneg ond oherwydd nad oedd cefnogaeth yn Lloegr fe aeth i Cwlen yn yr Almaen ym 1525. Yno dechreuwyd argraffu cyfieithiad o'r Testament Newydd yng ngwasg Peter Quentell. Cyn i'r gwaith gael ei gwblhau fe ymwelodd yr awdurdodau â'r argraffdy gan atal y gwaith ond llwyddodd Tyndale i ddianc. Aeth oddi yno i Worms, tref oedd â chydymdeimlad mawr gyda'r Lutheriaid, ac fe argraffwyd y fersiwn cyntaf erioed o'r Testament Newydd yng ngwasg Peter Schoffer ym 1526. Mae'r cyfieithiad hwn yn un o drysorau mawr yr iaith Saesneg. Yn fuan dechreuodd copïau ymddangos yn Lloegr a'r Alban ond fe ymatebodd yr awdurdodau'n chwyrn. Anfonodd Cuthbert Tunstall, Esgob Llundain, orchymyn yn gwahardd y llyfr gan rybuddio llyfrwerthwyr i beidio â'i werthu. Trefnodd losgi nifer o'r Testamentau Newydd yn St Paul's ac fe bregethodd ar yr achlysur gan ddweud ei fod wedi canfod 2,000 o gamgymeriadau. Aeth yr awdurdodau ati i geisio cael gwared â phob copi ac arestio pobl oedd yn

berchen arno. Ymddengys i Tyndale ymgartrefu yn Antwerp am gyfnod gan ysgrifennu llyfrau yn cynnwys *The Parable of the Wicked Mammon* a'i lyfr mwyaf dylanwadol, *The Obedience of a Christian Man*.

Aeth ati i ddysgu Hebraeg ac yn fuan ymddangosodd *The First Book of Moses called Genesis* a'r Pumllyfr ganddo yn Saesneg. Caniataodd Cuthbert Tunstall i Syr Thomas More ymchwilio i lyfrau hereticaidd Saesneg er mwyn gallu ymosod ar Tyndale. Cyhoeddwyd ganddo'r *Dialogue Concerning Heresies* ym 1529 yn ymosod yn chwyn ar Tyndale. Atebodd Tyndale ef yn egnïol yn *An Answer unto Sir Thomas More's 'Dialogue'* ym 1531 gan ymosod ar lygredd yr eglwys. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cyhoeddodd nifer o esboniadau Beiblaidd ar y Llythyr at y Rhufeiniaid, Epistol Cyntaf Ioan a rhannau o Efengyl Mathew.

Ym mis Mai 1535 arestiwyd Tyndale yn Antwerp, lle roedd yn aros yn nhŷ Thomas Poyntz, gan swyddogion imperialaidd ac aethpwyd ag ef i Gastell Vilvorde ar gyrion Brwsel lle y carcharwyd ef am un mis ar bymtheg. Cyhuddwyd Tyndale o hereticiaeth ac aeth o flaen ei well. Cynhaliwyd ei achos ym mhresenoldeb dau ar bymtheg o gomisiynwyr a arweiniwyd gan brif erlidiwr hereticiaid Ewrop sef Jacobus Latomus. Dyfarnwyd ef yn euog o hereticiaeth yn Awst 1536 ac mae'n debygol iddo gael ei ddiarddel o'r offeiriadaeth. Ar 6 Hydref 1536 fe'i dienyddiwyd y tu allan i Gastell Vilvorde. Cyn marw gwaeddodd, 'Lord, open the King of England's eyes.' Ni chafodd ei losgi yn fyw gan ei fod yn ysgolhaig ond yn hytrach fe'i crogwyd yn gyntaf ac yna fe losgwyd ei gorff. Dylanwadodd gwaith Tyndale yn fawr ar fywyd Lloegr oherwydd ei fod wedi galluogi pawb i ddarllen yr holl Destament Newydd yn Saesneg. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd hyn. Cyfrannodd ei waith i ddatblygiad yr iaith Saesneg a bu yn sylfaen i weithiau llenyddol mawr oes Elisabeth.